Bwcabus™
Ffonio·Casglu·Cysylltu Phone·Collect·Connect
☎ 01239 801 601
www.bwcabus.info

Bwcabus... Y Model Cludiant Newydd ar gyfer Cymru Wledig

Beth yw Bwcabus?

Bwcabus yw'r gwasanaeth bws lleol newydd, sydd yn gwbl hygyrch. Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra i anghenion y teithwyr drwy weithredu mewn ymateb i geisiadau ymlaen llaw am gludiant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 7am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn yr ardal a ddangosir ar y map.

Mae'r gwasanaeth yn galluogi pobl i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol o fewn ardal Bwcabus neu gysylltu â'r prif wasanaethau bws sy'n teithio i lefydd sy'n cynnwys Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Pencader a Chastell Newydd Emlyn drwy ganolfannau lleol.

P'un a oes angen ichi gyrraedd gwaith, hyfforddiant, gofal iechyd neu wasanaethau lleol, gall Bwcabus helpu. Mae'r cerbydau arbenigol newydd yn darparu llawr isel a mynediad hawdd ac mae ganddynt le ar gyfer bygis a chadair olwyn.

Sut ydw i'n defnyddio gwasanaeth Bwcabus?

Cam Un: Cofrestrwch eich manylion unwaith yn unig ac am ddim dros y ffôn, ar-lein neu ar un o'r cardiau cofrestru sydd ar gael ar gerbydau Bwcabus ac mewn cyfleusterau lleol.

Cam Dau: Pan fyddwch chi'n barod i ddefnyddio'r gwasanaeth, cysylltwch â'n canolfan alwadau ddwyieithog drwy ffonio **01239 801 601**. Mae'r ganolfan alwadau ar agor rhwng 7am ac 8pm, 7 niwrnod yr wythnos.

Cam Tri: Rhowch fanylion llawn y siwrnai/siwrneiau rydych chi'n dymuno ei gwneud/eu gwneud i un o staff y ganolfan alwadau. Mae siwrneiau bore ar gael rhwng 7am ac 1:30pm ac mae siwrneiau prynhawn ar gael rhwng 2pm a 7pm. Gofalwch eich bod yn archebu eich taith adref. Gall teithwyr archebu **mwy nag un** siwrnai reolaidd hyd at **28 diwrnod ymlaen llaw**.

Cam Pedwar: Os gallwn ni gynnig siwrnai addas ar eich cyfer, bydd un o staff y ganolfan alwadau yn cadarnhau'r siwrnai.

Mae pob siwrnai yn ddibynnol ar y gwasanaeth sydd ar gael a byddant yn cael eu trefnu ar sail y cyntaf i'r felin felly weithiau, byddwch chi'n cael cynnig amser arall ar gyfer teithio.

Mae'n rhaid i bob siwrnai rhwng 7am a 1:30pm gael ei harchebu erbyn **8pm** y diwrnod cyn teithio.

Mae'n rhaid i bob siwrnai rhwng 2pm a 7pm gael ei harchebu erbyn **11.30am** ar ddiwrnod y siwrnai.

Po gynharaf yr archebwch, po fwyaf o lwyddiant y cewch chi o ran archebu siwrnai ar yr amser o'ch dewis.

Mae gan Bwcabus hefyd nifer o deithiau sefydlog sy'n gweithredu ar ddiwrnodau penodol. **Nid oes angen** archebu'r teithiau sefydlog ymlaen llaw. Gallwch droi i fyny a dal y bws fel y byddech yn ei wneud ar gyfer gwasanaeth bws arferol. Mae amserlenni ar gael ar wefan Bwcabus ac yn llythyr newyddion Bwcabus.

I ddarganfod mwy am wasanaeth Bwcabus, ffoniwch 01239 801 601 neu ewch i'r wefan – www.bwcabus.info

• Ffonio • Casglu • Cysylltu •

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Cyngor Sir Ceredigion County Council
University of Glamorgan Prifysgol Morgannwg
TravelineCymru 0871 200 22 33 www.travelinecymru.info
Gwybodaeth teithio didrafferth Trouble free travel info
Llywodraeth Cymru Welsh Government

ERDF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop a Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Phone • Collect • Conne
Ffonio • Casglu • Cysyll

Ceinewydd / New Quay

Cysylltiadau ag Aberteifi, Cei Newydd ac Aberystwyth
Connections to Cardigan, New Quay & Aberystwyth

550/ X50

Cysylltiadau â Hwlffordd ac Aberystwyth
Connections to Haverfordwest & Aberystwyth

Brynhoffnant

Tan-y-groes

Sarnau

Betws Ifan

Rhydlewis

Ffostrasol

Aberteifi / Cardigan

Beulah

Ponthirwaun

Castell Newydd Emlyn / Newcastle Emlyn

Horeb

Cenarth

Henllan

Penrherber

Cwmhiraeth

Pentrecwrt

Drefach Felindre

Saron

Capel Iwan

Tycoch

Bryn Iwan

Hermon

460

Cysylltiadau â Hwlffordd, Abertawe a Chaerdydd
Connections to Haverfordwest, Swansea & Cardiff

☎ 01239 801 601

Bwcabus™

Ffonio·Casglu·Cysylltu Phone·Collect·Connect

Cysylltiadau ag Aberaeron, Aberystwyth a Chaerfyrddin
Connections to Aberaeron, Aberystwyth & Carmarthen

www.bwcabus.info

Bwcabus™
Ffonio·Casglu·Cysylltu Phone·Collect·Connect
☎ 01239 801 601
www.bwcabus.info

Bwcabus... The New Transportation Model for Rural Wales

What is Bwcabus?

Bwcabus is a new fully accessible local bus service. The service is tailored to the needs of the passengers by operating in response to pre-booked journey requests. The service operates from 7am-7pm Monday to Saturday in the area shown on the map.

The service enables people to travel between local towns and villages within the Bwcabus zone or connect to the main line route bus services travelling to places including Aberaeron, Aberystwyth, Cardigan, Carmarthen, Lampeter, Llandysul, Pencader and Newcastle Emlyn via local hubs.

Whether you need to access employment, training, healthcare or local services, Bwcabus can assist. The new specialist vehicles are low floor easy access and can accommodate buggies and a wheelchair.

How do I book Bwcabus?

Step One: Register the once with your details for free via telephone, on-line or the registration cards which are available on the Bwcabus vehicles and local amenities.

Step Two: Once you're ready to use the service contact our bilingual call centre on **01239 801 601**. The call centre is open from 7am until 8pm, 7 days a week.

Step Three: Provide the call centre agent with full details of the journey(s) you wish to undertake. Morning journeys are available between 7am and 1:30pm and afternoon journeys between 2pm and 7pm. Ensure you book your return journey. Passengers can **block book** regular journeys up to **28 days in advance**.

Step Four: If we can offer you a suitable journey the booking will be confirmed by the call centre agent.

All journeys are subject to availability and will operate on a first come first served basis, so you will sometimes be offered an alternative travel time.

All journeys to be undertaken between 7am and 1:30pm must be booked by **8pm** the day before travel.

All journeys to be undertaken between 2pm and 7pm must be booked by **11.30am** on the day of the journey.

You will have more success in obtaining your desired travel time, the earlier you book.

Bwcabus also has a number of fixed routes that operate on certain days, the fixed routes **do not** require pre-booking. Just turn up and catch the bus as you would for a regular bus service. Timetables are available on the Bwcabus website and in the Bwcabus newsletter.

To find out more about Bwcabus please call 01239 801 601 or visit the website – www.bwcabus.info

• Phone • Collect • Connect •

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Cyngor Sir Ceredigion County Council
University of Glamorgan / Prifysgol Morgannwg
TravelineCymru 0871 200 22 33 www.travelinecymru.info
Gwybodaeth teithio didrafferth Trouble free travel info
Llywodraeth Cymru Welsh Government

ERDF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund